# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Mehefin 2020

Amser: 10.00 - 10.48

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6377

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AS<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(5)556 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd, ac i drafod ymateb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 3 Papurau i'w nodi:

### 3.1 Llythyr gan y Prif Weinidog: Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog.

### 3.2 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Rheoliadau drafft mewn perthynas â Chofrestr Etholiadol 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog i godi pryderon mewn perthynas â'r amserlenni arfaethedig ar gyfer gwneud y rheoliadau.

### 3.3 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Canllawiau ar ddrafftio deddfwriaeth

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Amgylchedd - trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd i drafod drafft arall yn y cyfarfod nesaf.

## 6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Amaethyddiaeth

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.